Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

Datganiad i'r wasg

Dyddiad: **23 Gorffennaf 2010**

Teitl: Hybu'r economi gwybodaeth yng Nghymru

Bydd mwy o leoedd prifysgol ar gael mewn pynciau gwyddonol o'r flwyddyn academaidd 2010/11 ymlaen er mwyn cefnogi cynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru i adfywio'r economi.

Mae prifysgolion yng Nghymru wedi cael eu gwahodd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) i newid rhai o'u lleoedd presennol i fyfyrwyr yn lleoedd gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg (STEM), yn dilyn galwadau taer gan gyflogwyr am fwy o raddedigion yn y pynciau hyn.

Bydd CCAUC yn rhoi cyllid ychwanegol i brifysgolion i flaenoriaethu recriwtio i'r pynciau hyn, lle y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi nodi bod prinder myfyrwyr.

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dilyn y datganiad a wnaed gan y Gweinidog Addysg ar 14 Gorffennaf y bydd nifer yr israddedigion amser-llawn yn cael ei gyfyngu o 2011/12, ac mae'n adeiladu ar fuddsoddiad o £1 filiwn mewn rhaglen ar y cyd rhwng prifysgolion Cymru a Lloegr i gynyddu diddordeb myfyrwyr ysgol mewn pynciau STEM.

Meddai'r Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Mae'r fenter newydd hon yn rhan o nifer o fesurau sy'n cael eu cymryd gan CCAUC i sicrhau nad yw blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch – yn enwedig hybu pynciau sy'n fuddiol i'r economi, ehangu mynediad a darpariaeth cyfrwng Cymraeg – yn dioddef oherwydd yr angen i reoli cyfanswm yr israddedigion. Yn yr

hinsawdd ariannol bresennol, rhaid i ni flaenoriaethu ein cyllid a chanolbwyntio fwy ar y meysydd sydd bwysicaf i Gymru."

Nodiadau

CCAUC – cysylltwch ag: Emma Rączka, Rheolwr Cyfathrebu

029 2068 2225 emma.raczka@hefcw.ac.uk

Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC). Gwnawn ddefnydd strategol o'r adnoddau a dderbyniwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac eraill i:

- sicrhau dysgu ac ymchwil addysg uwch o'r ansawdd uchaf
- cynyddu i'r eithaf gyfraniad addysg uwch i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru
- sicrhau hyfforddiant athrawon achrededig o safon uchel ar draws Cymru.

Rydym hefyd yn cynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion ariannol, dyheadau a phryderon sefydliadau addysg uwch Cymru.

STEM – gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg

Bydd menter newydd CCAUC yn ei gwneud hi'n bosibl i leoedd wedi'u cyllido ychwanegol ar gyfer darpariaeth STEM – sy'n cwrdd â blaenoriaethau *Er Mwyn Ein Dyfodol* – fod ar gael yng Nghymru.

Bydd CCAUC yn darparu peth cyllid ychwanegol i dalu am y gwahaniaeth rhwng costau'r lleoedd myfyrwyr gwreiddiol a'r cwrs STEM cymwys. Bydd uchafswm o £250,000 ar gael a bydd yr holl geisiadau am gymorth ariannol i drosglwyddo credydau i gyrsiau STEM yn destun proses gystadleuol.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler cylchlythyr CCAUC W10/25HE: Redistribution Exercise 2010/11.

Mae'r pynciau hyn, sydd fel rheol yn ddrutach i'w darparu, yn hanfodol i gynnal economi bywiog yng Nghymru – un o nodau strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer addysg uwch, *Er Mwyn Ein Dyfodol*.

Rhaglen cenedlaethol STEM addysg uwch www.hestem.ac.uk/